

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 18 Mawrth 2015

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 MAWRTH 2015** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 17 Chwefror 2015 (copi ynghlwm).

#### **5 CYMERADWYO ACHOS BUSNES TERFYNOL AILDDATBLYGU YSGOL GLAN CLWYD** (Tudalennau 15 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi ynghlwm) yn argymhell cymeradwyo Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Glan Clwyd i'r Cyngor.

**6 TREFNIADAU LLYWODRAETHU GWE** (Tudalennau 49 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer GwE (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

**7 POLISI RECORDIO GALWADAU FFÔN NEWIDIADAU TRETH Y CYNGOR A CHYFRADDAU ANNOMESTIG CENEDLAETHOL, DISGOWNTIAU, EITHRIADAU A GOSTYNGIADAU** (Tudalennau 61 - 74)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer polisi newydd yn ymdrin â newidiadau cyfeiriad, newid sefyllfa a hawlio disgownt a gostyngiad y Gwasanaethau Refeniw.

**8 POLISI RECORDIO GALWADAU FFÔN CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR A BUDD-DAL TAI** (Tudalennau 75 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer polisi newydd yn ymdrin â hawliadau newydd a newid amgylchiadau Gostyngiad Treth y Cyngor a Budd-dal Tai.

**9 POLISI TALIADAU TAI DEWISOL** (Tudalennau 89 - 104)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth fframwaith polisi wedi'i ddiwygio yn ymdrin â Thaliadau Tai Dewisol.

**10 STRATEGAETH TYMOR HIR AR GYFER YR YSTÂD AMAETHYDDOL** (Tudalennau 105 - 120)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth strategaeth ar gyfer yr Ystâd Amaethyddol ar gyfer y dyfodol.

**11 GWAREDU TIR AC ADEILADAU YN Ffordd LLYS NANT, PRESTATYN** (Tudalennau 121 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn argymhell gwaredu tir ac adeiladau'r cyngor yn Ffordd Llys Nant, Prestatyn.

**12 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 131 - 148)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni.

**13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 149 - 154)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Dim.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans  
Julian Thompson-Hill  
Eryl Williams  
Bobby Feeley

Hugh Irving  
Huw Jones  
Barbara Smith  
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 17 Chwefror 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Dwrstiaeth, Hamdden ac Ieuenctid a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cyngorwyr Bill Cowie, Meirick Davies, Martyn Holland, Gwyneth Kensler, Dewi Owens, Merfyn Parry, Joe Welch a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW); Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Gofal a Chefnogaeth Tai (JS); Swyddog Taliadau Gwasanaeth (DO); Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Oedolion a Phlant) a David Smith (Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus)

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cyngorwyr Meirick Davies - Personol - Eitem 7 – yn rhentu garej gan y Cyngor  
Y Cyngorwyr Martyn Holland - Personol - Eitem 5 - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau

Y Cyngorwyr Huw Williams – Personol - Eitem 5 – Â phlentyn yn mynychu Ysgol Pen Barras

### 3 MATERION BRYD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryd.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

## 5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOLION CYNRADD ARDAL RHUTHUN - YSGOL LLANBEDR

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad briffio'r Cabinet ar benderfyniad diweddar y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanbedr ac yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau ar hynny.

Roedd y Gweinidog wedi gwrthod y cynnig i gau'r ysgol oherwydd iddo ddod i'r casgliad, er bod yna ddadleuon addysgol cadarn o blaid y cynnig, roedd yr ymgynghoriad yn ddiffygiol. Yn dilyn adolygiad o'r llythyr penderfyniad, roedd swyddogion wedi argymhell ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Esgobaeth ar ddyfodol yr ysgol. Dywedodd y swyddogion fod gan yr Esgobaeth opsiynau amgen ar gyfer yr ysgol ac y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio yn ystod y broses ymgynghori i ganfod a fyddai unrhyw gynnig amgen yn mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd. Trafododd y Cabinet y ffordd ymlaen yng ngoleuni'r wybodaeth a gyflwynwyd a chadarnhawyd mai diben yr adroddiad heddiw oedd peidio â thrafod cau'r ysgol, ond i geisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru. Byddai canlyniad y trafodaethau hynny yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill/Mai. Eglurwyd hefyd na fyddai'r canlyniad yn effeithio ar weddill cynigion adolygiad ardal Rhuthun.

Roedd y Cynghorydd Huw Williams yn gwrthwynebu cau yr ysgol ac yn siomedig bod y mater wedi'i ddwyn gerbron y Cabinet mor fuan ar ôl i'r Gweinidog wrthod y cynnig. Amlygodd fod diffygion ymgynghori wedi eu nodi er gwaethaf sicrwydd blaenorol yn hynny o beth gan swyddogion ac yn dilyn cael ei alw i mewn gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau. Cyfeiriwyd hefyd at y straen a achoswyd i staff, rhieni a disgyblion yr ysgol o ganlyniad. Wrth ystyried y camau nesaf dywedodd y Cynghorydd Williams fod nifer y disgyblion yn cynyddu a gofynnwyd bod yr ysgol yn cael cyfnod o sefydlogrwydd i ffynnu - anogodd y Cabinet i beidio â chychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar gau'r ysgol ond bod y mater yn cael ei ohirio hyd nes y ceir trafodaeth anffurfiol gyda'r Esgobaeth yn y lle cyntaf. Siaradodd y Cynghorydd Joe Welch hefyd i gefnogi'r ysgol, gan dynnu sylw at fod cyllid yn ei le i fwrw ymlaen â chynigion adolygiad ardal Rhuthun ac nad oedd yn ddibynnol ar gau yr ysgol. Roedd yn anhapus bod y swyddogion yn bwriadu aildechrau ymgynghori ar gau'r ysgol a chododd gwestiynau ynglŷn â chost y broses ymgynghori. Anogodd y Cynghorydd Dewi Owens hefyd y Cabinet i gymryd amser i fyfyrion, yn enwedig yng ngoleuni'r rhagamcanion disgyblion, ac argymhellodd ymgynghori ehangach.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd -

- Roedd y Gweinidog yn fodlon bod gan y Cyngor achos addysgol cydlynol ar gyfer cau Ysgol Llanbedr a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Borthyn
- Yn feirniadol roedd y Gweinidog yn fodlon y byddai'r cynnig yn sicrhau dosbarthiad tecach a mwy cyfartal o gyllid rhwng ysgolion prif ffrwd yn y sir
- Sir Ddinbych oedd yr awdurdod lleol cyntaf i weithio at y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd ac nid oedd y diffygion ymgynghori a nodwyd gan y Gweinidog wedi cael eu codi o'r blaen mewn unrhyw fforwm arall
- Nid oedd swyddogion ac aelodau o reidrwydd yn cytuno â chanfyddiadau'r Gweinidog ac er fod adolygiad barnwrol wedi cael ei ystyried, nid oedd yn



gyfystyr â'r defnydd gorau o amser ac adnoddau a chafodd yr opsiwn i ail-gychwyn ymgynghori ei argymell yn lle hynny – roedd costau ymgynghori wedi cael eu bodloni o fewn cyllideb y gwasanaeth

- Byddai trafodaethau anffurfiol yn cael eu cynnal gyda'r Esgobaeth yn atodol i'r cyfnod ymgynghori ffurfiol o 28 diwrnod. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynigion amgen a fyddai'n ymdrin â'r materion allweddol a byddai'r Esgobaeth yn cael eu gwahodd i gyflwyno'r cynigion hynny i'r aelodau
- roedd yn ofynnol i'r Cyngor i fynd i'r afael â'r lleoedd dros ben ar draws Sir Ddinbych gyfan ac adrodd yn ôl ar hynny i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn
- Rhoddwyd sicrwydd na fyddai cefnogaeth i'r ysgol yn cael ei lleihau yn y cyfamser, beth bynnag fo'r canlyniad.

Ar ôl ystyried y llythyr y Gweinidog a'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth, roedd y Cabinet yn awyddus i daclo dyfodol yr ysgol cyn gynted ag y bo modd a rhoi diwedd ar y cyfnod o ansefydlogrwydd. Cytunodd y Cabinet fod angen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Eglwys yng Nghymru yn y lle cyntaf ac y dylid adrodd canlyniadau'r trafodaethau hynny yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD** - bod y Cabinet yn:-

- (a) *nodi cynnwys llythyr y Gweinidog, gweler Atodiad 1 yr adroddiad*
- (b) *cytuno bod y swyddogion yn dechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau.*

## **6 GWEITHREDU DEDDF TAI CYMRU 2014**

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Irving yr adroddiad yn ymwneud â gofyniad a osodir ar awdurdodau lleol Cymru i benderfynu pa grwpiau o bobl ddigartref y bydd yn cymhwyso'r prawf o "ddigartref yn fwriadol", yn dilyn gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn Ebrill 2015.

Darparwyd diffiniad o ddigartrefedd yn fwriadol o dan y Ddeddf newydd ynghyd â manylion am y grwpiau hynny y gallai'r prawf gael ei ddefnyddio arnynt. Er mai bwriad Llywodraeth Cymru yn y dyfodol oedd cael gwared ar y prawf bwriadoldeb ar gyfer yr holl deuluoedd o tua mis Ebrill 2019, roedd y swyddogion o'r farn, am resymau ymarferol, na fyddai'n amserol nac yn briodol i'w dynnu o unrhyw grŵp unigol ar hyn o bryd. O ganlyniad, argymhellwyd nad oedd y Cyngor yn eithrio unrhyw un o'r grwpiau cymwys hynny a'i fod yn parhau i ddefnyddio'r prawf ar gyfer pob un ohonynt.

Eglurodd y swyddogion na fyddai cymeradwyo'r argymhelliad yn arwain at unrhyw newid i bolisi presennol y Cyngor ond byddai'n cynnal y sefyllfa bresennol nes byddai Llywodraeth Cymru yn cael gwared ar y prawf. Byddai'r prawf yn parhau fel cymorth i bobl yn hytrach na mesur cosbol. Trafododd y Cabinet gyda swyddogion y rhesymau dros beidio gwared ar y prawf bwriadoldeb ar hyn o bryd a darparodd y swyddogion enghreifftiau o'r mathau o aelwydydd digartref a gyflwynir i'r awdurdod, y defnydd o'r prawf bwriadoldeb yn ymarferol, a sut gallai ymgysylltu cadarnhaol fod o fudd i unigolion a theuluoedd a darparu tenantiaethau cynaliadwy gan helpu lliniaru'r risg busnes i landlordiaid. Nodwyd bod penderfyniadau bwriadoldeb yn

brin ac yn cynrychioli tua 5% o'r holl benderfyniadau a wnaed yn 2014. Roedd y Cabinet yn cydnabod y manteision o gymryd safbwynt dros dro hyd nes y ceir gwared ar y prawf yn y dyfodol lle byddai'r prawf yn cael ei ddefnyddio mewn modd cadarnhaol i annog cydweithredu ac ymgysylltu gydag aelwydydd i fynd i'r afael â'r materion ac anghenion creiddiol, a datblygu cydweithio agosach gydag asiantaethau partner er mwyn darparu fframwaith amlasiantaeth gydgysylltiedig ar gyfer aelwydydd digartref ag anghenion cymorth heb eu bodloni. Cydnabuwyd hefyd y byddai'r dull hwn yn debygol o leddfu'r pwysau ar wasanaethau eraill y Cyngor, yn enwedig y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Amlygwyd hefyd yr angen i gymryd amser i sefydlu fframwaith priodol ar gyfer pryd fydd y prawf yn cael ei dynnu yn ôl, a darparwyd sicrwydd bod ymagwedd gyson yn cael ei chymryd gan awdurdodau cyfagos nad oedd yn cefnogi cael gwared ar y prawf ar hyn o bryd.

Cwestiynodd yr Arweinydd y goblygiadau ariannol oedd yn codi o'r argymhellion a dwedodd y swyddogion fod arian cyfrifoldebau newydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r gweithgareddau ychwanegol ehangach a roddir ar awdurdodau lleol yn deillio o weithredu'r Ddeddf Tai. Cadarnhawyd y byddai adroddiadau i'r Cabinet yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun ariannol ehangach.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn eithrio unrhyw un o'r grwpiau a enwir dan adran 2 yr adroddiad ond, yn hytrach, yn parhau i gynnal "prawf bwriad" ar bob un ohonynt ac yn cyhoeddi ei fwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru fel y manylwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## **7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2015/16**

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i'r cynnydd arfaethedig mewn rhent a chyflwyno taliadau gwasanaeth, a chymeradwyo'r Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2015/16. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ymadawiad y Cyngor o'r system HRAS ym mis Ebrill 2015 ac roedd y Cyngorydd Hugh Irving yn falch o adrodd ar ymgysylltiad cadarnhaol y pedwar cynrychiolydd tenantiaid ar y Gweithgor HRAS a'u cyfraniad gwerthfawr i'r broses honno.

Arweiniodd y Cyngorydd Thompson-Hill yr aelodau drwy ffigurau'r gyllideb a oedd wedi eu cyfrifo gan ystyried y polisi rhent newydd, dad-gronni taliadau gwasanaeth, mecanwaith ar gyfer codi rhenti a chyflwyno tâl gwasanaeth sefydlog lle bo hynny'n berthnasol. Adroddodd y Swyddog Taliadau Gwasanaeth bod tâl gwasanaeth amrywiol wedi cael ei argymhell yn y lle cyntaf, ond oherwydd bod 90% o denantiaid ar gontractau blynyddol tymor penodol, byddai'n fwy priodol i gyflwyno tâl gwasanaeth tymor penodol a phasio'r arbedion dilynol ymlaen i'r tenantiaid.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- Roedd y Cyngorydd Huw Jones yn awyddus i sicrhau bod yr adolygiad arfaethedig o garejys y cyngor yn cael ei wneud - cytunwyd i gynnwys yr adolygiad yn y penderfyniad

- amlygwyd nad oedd rhai garejys y cyngor yn cael eu defnyddio'n briodol a darparodd swyddogion sicrwydd y byddai camau yn cael eu cymryd yn erbyn y rhai a oedd yn defnyddio garejys y cyngor yn groes i'w telerau tenantiaeth
- Darparwyd esboniad ynglŷn â defnyddio'r meini prawf ar gyfer rhenti targed gyda chamau'n cael eu cymryd i gynyddu rhenti yn raddol er mwyn cwrdd â ffigurau rhent targed Llywodraeth Cymru ar gyfer pob eiddo unigol erbyn 2015/16
- roedd rhywfaint o anfodlonrwydd ynghylch cyfrifiad Llywodraeth Cymru o renti cyfartalog nad oedd yn cymryd i ystyriaeth ffyniant o fewn gwahanol ardaloedd, ond derbyniwyd bod yr elfen hon tu allan i reolaeth y Cyngor
- roedd yr aelodau'n falch o nodi bod elfen o adeiladau newydd wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Busnes y Stoc Tai a fyddai'n darparu llety o ansawdd da ar gyfer trigolion Sir Ddinbych – pwysleisiwyd yr angen i roi cyhoeddusrwydd i'r mater hwn fel stori newyddion da
- cadarnhaodd y swyddogion nad oedd unrhyw ddibyniaeth ar werthiannau Hawl i Brynu fel ffynhonnell arian ar gyfer Cynllun Busnes y Stoc Tai gyda'r elfen hon wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd i ragolwg o ddim ond un gwerthiant y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- Mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2015/16 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2);*
- Codi rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 i rent wythnosol cyfartalog o £74.93 o ddydd Llun 6 Ebrill 2015 ymlaen;*
- Codi rhenti garejis y Cyngor yn unol â'r cynnydd mewn rhent ar gyfer anheddau'r Cyngor;*
- Cyflwyno costau gwasanaeth cyfartalog o £1.99 yr wythnos lle bo'n berthnasol yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014;*
- Cynnal adolygiad o safleoedd garej yn 2015/16 fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Asedau, a derbyn adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad erbyn 31 Rhagfyr 2015 fan bellaf.*

Ar y pwynt hwn (11.40 am) cafwyd egwyl ar gyfer paned.

**8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2015/16 fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Aeth y Cynghorydd Thompson-Hill â'r aelodau drwy'r adroddiad ac ymhelaethodd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf i brosiectau un tro a dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni parhaus o waith. Cyfeiriwyd at waith y GBS wrth adolygu ceisiadau ar gyfer dyraniadau ynghyd â materion a gododd yn ystod y broses

honno a chrynodeb o'r argymhellion. Gan nad oes cyllid cyfalaf digonol ar gael i dalu am yr holl brosiectau mae nifer o gyn-ddyraniadau o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol wedi cael eu hargymell.

Mynegwyd cwestiynau ynghylch y rhaglen adnewyddu goleuadau stryd o £2m ac eglurwyd er mwyn bodloni'r gofyniad i gyflwyno ceisiadau am gyllid Salix y Llywodraeth yn flynyddol, cynigiwyd y dylid cymryd benthyciad blynyddol o tua £335k bob blwyddyn dros chwe blynedd ar sail dreigl, yn ad-daladwy o'r arbedion a wneir o'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhaglen yn cynnwys ailosod y llusernau presennol gyda llusernau LEA newydd a ddylai ddarparu arbedion sylweddol ar gostau ynni a chynnal a chadw. Soniodd y Cynghorydd Bill Cowie am y goleuo gwael yn y Groesfan Pelican yn Llanelwy (A525) ers i oleuadau stryd LEA gael eu gosod a gofynnodd am i'r mater gael ei ymchwilio cyn i'r cynnig gael ei ystyried yn y Cyngor llawn. Cytunodd y Cynghorydd Thompson-Hill i gysylltu â'r Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol dros y Parth Cyhoeddus yn uniongyrchol mewn perthynas â hynny. Ymatebodd hefyd i gwestiynau pellach ynghylch allyriadau carbon, gan gadarnhau bod adeiladau'r cyngor yn cael eu monitro mewn perthynas â hyn a bod cynlluniau ynni effeithlon wedi cael eu cyflwyno mewn rhai ardaloedd.

Roedd yr Arweinydd yn teimlo bod y broses o adolygu ceisiadau a dyrannu cyfalaf yn gadarn ond gofynnodd am ystyried sut i fesur gwerth am arian ac effaith buddsoddi cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Cytunodd y Cynghorydd Thompson-Hill â'r awgrym hwnnw - cytunodd hefyd i ddarparu manylion pellach ynghylch aelodaeth y GBS yn adroddiadau'r dyfodol a chadarnhaodd bod presenoldeb da mewn cyfarfodydd ar y cyfan.

**PENDERFYNWYD** y dylid cefnogi'r prosiectau yn atodiad 1 sydd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2015/16 a'u hargymell i'r Cyngor llawn.

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £639k ar y gyllideb refeniw ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- cytunwyd ar arbedion o £7.1 miliwn fel rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd ystyrir bod 90% o'r rhain wedi eu cyflawni, gyda 10% ar waith
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion meysydd gwasanaeth unigol
- cafwyd diweddariad cyffredinol ynglŷn â'r Cyfrif Refeniw Tai; Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo trosglwyddo £100k i gronfa wrth gefn i ariannu gwelliannau i fand eang ysgolion yn 2015/16.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol -

- Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol i gwestiynau ynghylch Datblygu Harbwr y Rhyl gan gadarnhau ei fod wedi cael nifer da yn ei ddefnyddio yn ystod ei flwyddyn gyntaf - byddai adolygiad manylach yn cael ei gynnal ar ôl ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu
- mynegwyd pryderon ynghylch penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru lle roedd grantiau amrywiol yn cael eu dyfarnu (ac mewn un achos yn cael ei dynnu yn ôl) ar gam mor hwyr yn y flwyddyn ariannol fel ei fod yn achosi anawsterau i Gynghorau yn cynllunio eu strategaethau ariannol a chynlluniau cyllido - cyfeiriwyd yn arbennig at benderfyniad hwyr Llywodraeth Cymru i ddyfarnu £1.5m i Gynghorau i'w wario ar offer chwarae erbyn diwedd mis Mawrth 2015 tra ar yr un pryd yn dod â thoriadau sylweddol y gyllideb - ystyriwyd bod pe bai cyllid ar gael dylid ei ddyrannu ymlaen llaw i helpu amddiffyn cynghorau yn erbyn y toriadau gwaethaf
- Hefyd, codwyd pryderon ynglŷn â dyfodol TAITH gan fod cymaint o gyfrifoldeb y bwrdd rhanbarthol hwnnw wedi cael ei diddymu gan Lywodraeth Cymru - tra gellid gwneud cynlluniau ar sail ranbarthol, byddai angen i awdurdodau lleol wneud cais am gyllid yn unigol ac nid ar sail gydlynol. Dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams fod y model rhanbarthol wedi gweithio'n effeithiol a bod rhoi'r gorau i'r gwaith hwnnw yn gam yn ôl ac yn groes i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio rhanbarthol - gofynnodd am godi'r mater yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru
- Ailadroddodd yr aelodau hefyd bryderon blaenorol a godwyd am golli incwm o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r effaith ar y gyllideb refeniw
- nodwyd na fyddai newidiadau a gymeradwywyd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cludiant Ysgol yn cael effaith ar unwaith, ond byddai'n cael ei ddatrys i raddau helaeth yn y tymor hir
- Darparwyd diweddariadau ar y prosiectau cyfalaf mawr a rhoddwyd ymatebion i gwestiynau a godwyd ar brosiectau unigol. Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams y byddai budd mewn darparu lluniau o'r prosiectau mawr yn y Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD** - bod y Cabinet yn:-

- nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*
- cymeradwyo trosglwyddo £100 mil i gronfa wrth gefn i ariannu gwelliannau i fand eang ysgolion yn 2015/16;*
- anfon llythyr at Lywodraeth Cymru ynglŷn â phryderon y Cabinet o ran cynigion y Gweinidog mewn perthynas â TAITH.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried. Nododd yr Aelodau y byddai adroddiad ar y Strategaeth Hirdymor ar gyfer yr Ystâd Amaethyddol yn cael ei ychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Mawrth.

**PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>24 Mawrth 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol: dros Addysg</b>	<b>Y Cyngorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ailddatblygu Ysgol Glan Clwyd</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Bwriad yr adroddiad yw hysbysu'r Cabinet am y sefyllfa bresennol o ran cyflwyno Achos Busnes Terfynol y Cyngor ar gyfer Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy i Lywodraeth Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol (Mai 2013) a'r Achos Busnes Amlinellol (Hydref 2013) ar gyfer y prosiect hwn. Mae angen cymeradwyaeth rwan er mwyn i'r Achos Busnes Terfynol gael ei ystyried ar gyfer ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Glan Clwyd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn rhoi manylion am uchelgais y Cyngor i sicrhau buddsoddiad sylweddol ym mhorthfolio Adeiladau Ysgolion y Cyngor rhwng 2012-17. Elfen sylweddol o'r gwaith hwn fydd cyflawni'r prosiectau Band A ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

### Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth mewn egwyddor i roi £36.7 miliwn fel eu cyfraniad o 50% tuag at Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cynnwys 5 prosiect ym mis Rhagfyr 2011. Yn dilyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phob awdurdod lleol i ganfod sut y gellir dyrannu'r buddsoddiad llawn o £1.2 biliwn ledled Cymru i ffrydiau gwaith y gellir eu cyflawni gan awdurdodau lleol unigol.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ddilyn yr arweiniad ar gyfer cymeradwyo Achosion Busnes fel y'i diffinnir ym Model Trysorlys EM. Ar gyfer prosiectau o dan £5m, bydd angen cymeradwyo

Achos Cyfiawnhad Busnes, ond ar gyfer prosiectau dros £5 miliwn bydd angen cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn.

- 4.2 Bydd y prosiect yn Ysgol Glan Clwyd yn darparu adeilad ysgol wedi'i ymestyn a'i adnewyddu i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y Sir.

Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2013 i neilltuo tua £1.0 miliwn i ariannu gwaith ar Gamau 1 a 2 (Cysyniad a Dyluniad Manwl) a fyddai'n galluogi'r prosiect i gael ei symud ymlaen i sefyllfa lle gellid gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes llawn a'r cynigion a dderbyniwyd gan y contractwyr.

Ym mis Awst 2014 penodwyd Willmott Dixon yn gontractwr arweiniol yn dilyn cystadleuaeth fechan ymysg y chwe chontractwr a benodwyd i'r band gwerth perthnasol ar gyfer Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Maent wedi cael eu cyflogi i gynhyrchu camau dylunio'r ysgol gyda chymalau torri priodol cyn y cam adeiladu.

Cyflwynwyd Adroddiad Dylunio Cam C gan Willmott Dixon i Sir Ddinbych ddiwedd mis Ionawr 2015 ac mae'r ddogfen yn garreg filltir allweddol sy'n crynhoi'r gwaith dichonoldeb a wnaed dros y 4 mis diwethaf.

Yr amcanion allweddol yw:

- Rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith dichonoldeb a wnaed;
- Dangos hyfedredd technegol priodol ar gyfer dylunio'r adeilad a'r safle;
- Cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â chostau sy'n dangos y gellir cyflawni'r ysgol o fewn cyllideb y cytunwyd arni;
- Dangos prif raglen y gellir ei chyflawni ar gyfer y prosiect sy'n adlewyrchu canlyniadau posibl y broses gynllunio;
- Tynnu sylw at unrhyw risgiau sy'n parhau gyda'r prosiect a dangos y gellir lliniaru a rheoli'r rhain drwy gamau nesaf y prosiect;
- Cyflwyno lefel o wybodaeth am ddichonolrwydd i lwyddo i dderbyn cymeradwyaeth am arian gan Sir Ddinbych / Llywodraeth Cymru a galluogi'r awdurdod i symud ymlaen i gamau manwl y prosiect.

- 4.3 Cost gyffredinol y prosiect yn ôl yr adroddiad Cam C oedd £14,175,521. Roedd hyn yn uwch na'r swm a amcangyfrifwyd yn flaenorol o £13,900,000 ar gyfer elfen Willmott Dixon y prosiect. Mae un elfen o hyn yn ganlyniad i arolygon ychwanegol sydd eu hangen a phenderfyniad i gadw bloc gwyddoniaeth presennol yr ysgol, y cynigiwyd ei ddymchwel, at ddiben addysgol ychwanegol. Wrth gymeradwyo'r adroddiad Cam C, mae Sir Ddinbych wedi mynegi barn glir y bydd gostyngiad o oddeutu £80,000 yn ei gostau cyn cymeradwyo cam nesaf y prosiect. Mae cyfanswm cost y prosiect yn parhau i fod yn £15,900,000 sy'n cynnwys costau Sir Ddinbych (ffioedd cleientiaid a dylunio) a symiau wrth gefn Cleientiaid.



- 4.4 Bwriad yr Achos Busnes Terfynol sydd ynghlwm yw gofyn am oddeutu 47% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r prosiect. Bydd hyn yn golygu bod angen i Sir Ddinbych ddarparu swm o £8,410,060. Bydd y balans rhwng cyllid LIC a CSDd yn galluogi cyllid ar gyfer y 4 prosiect Ysgol Gymunedol o fewn Ysgolion yr 21ain Ganrif (Ysgol Newydd y Rhyl, Ysgol Bro Dyfrdwy ac Ysgol Gymunedol Bodnant, ynghyd ag Ysgol Glan Clwyd) i fod yn gyfartal ar 50/50. Mae'r swm hwn wedi ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol cyffredinol a'r Cynllun Cyfalaf fel rhan o gyllid cyffredinol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- 4.5 Bydd yr Achos Busnes Terfynol yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru erbyn canol mis Mawrth 2015 ar yr amod y ceisir cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cabinet a'r Cyngor ar 24 Mawrth ac 14 Ebrill, 2015, cyn y penderfyniad terfynol gan Banel Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar 28 Ebrill 2015. Disgwylir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidog dros Addysg ym mis Mai 2015.
- 4.6 Disgwylir am yr amserlenni drafft canlynol er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect: -

Gweithgaredd Carreg Filtir	Dyddiad
Cyflwyno Achos Busnes i Lywodraeth Cymru (LIC)	Mawrth 2015
Aseiad o'r Achos Busnes gan LIC	Ebrill 2015
Cwblhau Cam 2 - Dylunio Manwl	Gorffennaf 2015
Dyfarnu'r Contract	Hydref 2015
Cam 3 - Adeiladu	Tachwedd 2015 - Awst 2017
Trosglwyddiad Terfynol	Awst 2017

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y gwaith o ddatblygu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Foderneiddio Addysg ehangach yn ffactor wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyhead i wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2012 – 2017. Bydd y Rhaglen hefyd yn cynorthwyo'r Flaenoriaeth o Ddatblygu'r Economi Leol drwy fuddsoddi gwariant cyfalaf tuag at wella ansawdd adeiladau ysgolion.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y costau sy'n deillio o brosiect Ysgol Glan Clwyd yn tua £15.9m. Bydd cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol yn galluogi i'r contract gael ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r awdurdod i sicrhau tua 47% o'r gost darged fel arian cyfatebol. Y Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ddefnyddio Willmott Dixon yn y cam adeiladu.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed AEC wedi'i lenwi fel atodiad i'r adroddiad.**

Barn yr aseiad o effaith ar gydraddoldeb yw y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n rhannu nodweddion a warchodir. Bydd yr effaith yn cael ei fonitro yn ystod oes y prosiect. Un o brif fendithion y prosiect fydd datrys y problemau sylweddol sy'n bodoli ar y safle ar hyn o bryd gyda nifer o wahanol lefelau yn gwneud ardaloedd mawr o'r adeiladau yn anhygyrch ar hyn o bryd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Bu ymgynghori helaeth gyda chymuned yr ysgol yn Ysgol Glan Clwyd wrth ddatblygu'r prosiect hyd yma.. Mae hyn wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd ymgynghori yn y gymdogaeth i drafod y cynlluniau sy'n amlygu eu hunain ar gyfer adeiladau newydd yr ysgol. Mae Grŵp Aelodau Ardal Elwy a Chyngor Dinas Llanellwedd wedi cyfrannu at gynnydd y prosiect.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae hwn yn brosiect strategol allweddol o ran Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynllun corfforaethol y Cyngor. Mae'r cyngor eisoes wedi ymrwymo oddeutu £1.0 miliwn tuag at y gwaith cychwynnol sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Mae digon o gyllid cyfalaf ar gael i gyflawni'r prosiect ar y gost a ragwelir.

Dyma'r ail brosiect cyfalaf fwyaf i gael ei chynnal erioed gan y Cyngor ac felly mae iddi risg ariannol. Mae gwaith rheoli prosiect da felly'n allweddol i hyn ac mae'n rhaid monitro'r prosiect yn ofalus.

Ar bob cam, rhaid i'r Cyngor fod yn sicr bod pob prosiect yn cynnig gwerth am arian a bod y rhaglen gyffredinol yn fforddiadwy ac y gellir ei chyflawni. Ar y cam hwn yn y rhaglen, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os na fydd y prosiect yn derbyn cymeradwyaeth mae perygl na fydd y gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei ddatblygu ymhellach. Gellid ystyried fod cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect ym mis Mai 2013 a'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Hydref 2013 yn lleihau'r risg y bydd y prosiect yn methu â derbyn cymeradwyaeth derfynol gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn lliniaru hyn cafwyd trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ar gynnydd prosiect Ysgol Glan Clwyd.

Mae'r prosiect cyfan yn cael ei rheoli gan Reolwr Prosiect profiadol, ac mae trefniadau clir ar gyfer rheoli risg yn ystod y prosiect.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

# Ysgol Glan Clwyd

## Extending Secondary Welsh Medium Education Provision

### Full Business Case (FBC)



**Version No:** 1.0  
**Date:** March 2015  
**Version History:**

Version	Date Issued	Brief Summary of Change	Owner's Name
0.1	12.02.2015	First Draft	Peter Clayton
0.2	27.02.2015	Updated following DCC SIG Comments	Peter Clayton
1.0	10.03.2015	Issued to DCC Cabinet Issued to Welsh Government	Peter Clayton

## **EXECUTIVE SUMMARY**

(500 words maximum)

This Full Business Case (FBC) presents a proposal to extend, remodel and refurbish the County's existing Welsh medium secondary school, Ysgol Glan Clwyd, St Asaph to create a school with a capacity of 1250 via delivery of the identified 'preferred option'.

The school as of March 2014 had 968 pupils and is close to its current capacity of 1,000 pupils. The Council in partnership with the Welsh Government has increased the capacity in the Welsh Medium Primary schools which serve Ysgol Glan Clwyd. Current pupil forecasts suggest that the pupil numbers at the school will increase to 1,140 by March 2020. Without this project the Council will be unable to meet the growing demand for Welsh Medium education in the secondary sector.

This will address the following:


- Contribution to raising educational attainment;
- Improving condition – *raise retained School buildings to Condition Category B and any new build to Condition Category A plus elimination of maintenance backlog;*
- Improving suitability – *appropriateness of accommodation to enable delivery of 21<sup>st</sup> Century accommodation for forecast numbers of pupils on roll up to 1250 places;*
- Better matching of demand for and supply of pupil places – *provision of 1250 places to meet forecast increase in Welsh Medium demand in region, removal of all temporary accommodation;*
- Support delivery of other services – *improve facilities and access to leisure offer and wider community;*
- Quality of Design – *provide an aspirational environment suitable and flexible for delivery of 21<sup>st</sup> Century education.*

The 'preferred' option, following a re-assessment of the short list is a variation on the Option 3 presented at OBC stage. This new Option 3 still being a refurbishment, partial replacement & extension but focused on a slightly larger


proportion of demolition and greater new build to the southern part of the school site.

The total cost of this preferred option is £15.9 million and this investment is being sought to deliver the 'preferred' option over the period 2014-2018.

**Current School:**



**Proposed Design:**



## STRATEGIC CASE

(1000 Words Maximum)

The overall Strategic Case as described in detail within the Outline Business Case (OBC) remains valid.

To reconfirm in line with the detail in the OBC, satisfying the potential scope for this investment will deliver the following high-level programme wide strategic benefits:

1. **Investment Objective 1:** Learning environments for children and young people aged from 3 to 19 that will enable successful implementation of strategies for school improvement and better educational outcomes;
2. **Investment Objective 2:** Greater economy through better use of resources to improve efficiency and cost-effectiveness of the education estate and public provision;
3. **Investment Objective 3:** A sustainable education system with all schools meeting a 21st Century Schools Standard, and reducing recurrent costs and carbon footprint.

Guided by these overarching strategic objectives, a number of benefits criteria have been developed for the project against which to assess the options developed to address the business need. Based on an appraisal of the options available against these criteria, a 'preferred' option is proposed that will best contribute to delivering against these criteria, with the appraisal also including a value for money assessment to moderate the appraisal from an affordability perspective plus and initial assessment of risk attached to each option.

In summary the benefits criteria areas include:

- Raising attainment
- Support service delivery
- Building condition
- Suitability
- Matching demand / supply of places
- Design



The criteria have been used to identify specific measurable benefits against which the preferred solution can be assessed.

### **Business strategies**

The Council has a 5 year Corporate Plan, approved by elected members in October 2012, which identifies 7 priority areas for Council activity and action and contextualises national and regional policy developments for Denbighshire.

Specifically within this plan there is a priority work stream for:-

- Improving performance in education and the quality of our school buildings

This priority includes the following intended outcomes:-

- We will invest significantly to improve school buildings and facilities and provide improved learning environments for pupils
- We will continue to review school provision across the county to ensure that we provide the right number of school places, of the right type, in the right location. Specifically we aim to deliver:
  - A brand new high school for Rhyl
  - Extension and remodelling of Ysgol Glan Clwyd
  - Bodnant Community School extension as a single site school
  - A new area school in Cynwyd
  - A new faith-based school in the north of the county

The Corporate Plan states that the programme will be funded through the use of reserves, balances and by selling assets with the rest being generated through prudential borrowing. Further detail is contained within the Financial Case of this FBC. The affordability of this plan has been reconfirmed by Councillors recently as part of the overall budget setting process and Council on the 3<sup>rd</sup> February 2015 confirmed its commitment "that the delivery of the Corporate Plan takes priority in future budget setting rounds."



## **Other organisational strategies**

These corporate priorities are further supported by service delivery plans and the establishment of a number of Corporate Programmes. These include:

- Economic Ambition
- Modernisation

which are supplemented by:

- Modernising Education (Inc. 21<sup>st</sup> Century Schools Programme)

Of particular relevance to this proposed project is the 21<sup>st</sup> Century Schools Programme. The Council believes that the Programme, through effectively addressing issues around surplus and deficit places, will lead to the reduction in the number of schools maintained whilst focusing resources on remaining schools to provide an estate that is modern, efficient and effective for delivery of a modern curriculum. In addition, delivery of projects within the 21<sup>st</sup> Century Schools Programme will also contribute to the development of the Economic Ambition programme via the investment in the economy and the development of appropriate community benefits.

## **Welsh in Education Strategic Plan**

The Council recognises the importance of bilingualism in 21<sup>st</sup> Century Wales and has adopted a long term aspiration that all children and young people in the County will leave full-time education being competent and confident in using both Welsh and English languages. The Council recognises that this is a long term aspirational aim that will not be achieved for a number of years.

Since the submission of the Council's Outline Business Case the investment projects as part of the Tranche 3 21<sup>st</sup> Century Schools transitional funding at two of the main Primary feeder schools to Ysgol Glan Clwyd have been completed. This has allowed the increased demand in Welsh Medium education in the primary sector to be met and this now needs to be reflected in the Secondary Sector.

The Council's Welsh in Education Strategic Plan which covers the period 2014 – 17 reaffirms the Council's commitment to increasing the number of pupils

receiving their education through the medium of Welsh. In particular it includes actions to “increase the percentage of learners aged 14-16 studying for qualifications through the medium of Welsh” to which this project will assist those pupils who currently receive Welsh medium primary education and will continue to do so in the secondary sector.

## ECONOMIC CASE

(500 Words Maximum)

The critical success factors, as identified and detailed in the OBC remain valid.

The short list of options as detailed in the OBC are summarised below:

Option Reference	Summary Description	Option Type
1	Do minimum – increase space provision via modular units	Comparator
2	Refurbishment, partial replacement & extension of Ysgol Glan Clwyd – Courtyard	Preferred
3	Refurbishment, partial replacement & extension of Ysgol Glan Clwyd – Rear block	Less Ambitious
4	New build Ysgol Glan Clwyd	More Ambitious

Following appointment of a contractor in August 2014 based on an Early Contractor Involvement (ECI) as described in the Commercial Case of this FBC, key stakeholders were re-engaged and an exercise undertaken to challenge the assessment of the short listed options originally developed as part of the initial feasibility work in 2010 and detailed in the OBC.

This re-assessment was undertaken to challenge the assumptions made when developing the original OBC short list; these assumptions and areas of challenge included:

- Practicality
- Buildability
- Value for money – in light of new construction approaches
- Latest construction market – costs
- Costs of options – figures used for OBC were based on Cost Plans originally developed in 2010 (albeit they included price uplift forecast)
- Areas of inefficiency in original short listed options

The proposed preferred solution was reviewed and it was considered that this project was unaffordable within the initial allocation for the project without compromising many of the elements which would deliver key benefits for the project.

This re-assessment exercise led to the development of an alternative approach to the original Option 3 as presented in the OBC. This approach has allowed for a revised approach to be taken to the delivery of the project which ensures that the key benefits can be delivered within the existing funding envelope for the project.

This new Option 3 still being a refurbishment, partial replacement & extension but focused on a slightly larger proportion of demolition and greater new build to the southern part of the school site – 47% new build against 40% new build with the OBC preferred option.

A workshop was held at the school on October 08<sup>th</sup> 2014 with key stakeholders to re-appraise the original OBC short list and the new Option 3 against the critical success factors.

Option 3, the new preferred option, delivers better value for money based on the revised options appraisal. It also offers potential for a reduced overall delivery timescale of approximately 6-8 weeks on the construction phase and a reduction in the number of those construction phases required compared to the original OBC preferred option. The initial plan included works being undertaken across 5 phases, the revised plan should be completed in 2 distinct phases. Overall this revised approach will reduce the level of disruption to an operational school and subsequently reduce the potential negative impact on learning.

Given the introduction of this new Option 3, now the 'preferred' option, the Economic Appraisals detailed in the OBC were revisited and updated to reflect the re-assessment exercise findings. This exercise confirmed that the new Option 3 was indeed the 'preferred' option when appraisal included other issues on cost, NPC, benefit, cost per benefit point and risk.

The short list of options as finalised, including identification of the FBC preferred option, are summarised below:

<b>Option Reference</b>	<b>Summary Description</b>	<b>Option Type</b>
1	Do minimum – increase space provision via modular units	Comparator
2	Refurbishment, partial replacement & extension of Ysgol Glan Clwyd – Courtyard	Preferred at OBC
<b>3</b>	<b>Refurbishment, partial replacement &amp; extension of Ysgol Glan Clwyd – Southern block</b>	<b>Preferred at FBC</b>
4	New build Ysgol Glan Clwyd	More Ambitious

## **COMMERCIAL CASE**

(1500 Words Maximum)

### **Method of procurement**

Procurement for the project was via the North Wales Schools and Public Buildings Contractor Framework (NWSPBCF). This Framework was officially launched in April 2014 and sets out clear call off procedures via mini-tender exercises for Authorities to follow in procuring teams for specific projects. The Framework was developed and set up following an OJEU compliant procurement exercise that included PQQ and ITT stages to procure a limited number of main contractors to a set number of Lots under the Framework.

Given the anticipated project construction value of £13.9M, the project falls within Lot 2 of the Framework for projects valued between £7.5M and £15M.

Under the guidelines set out within the Framework for call off via mini-tender exercises for individual projects a number of procurement approaches are possible ranging from Early Contractor Involvement (ECI), through degrees of Design & Build to Full Design or Novation.

An appraisal of these options was undertaken based on an assessment of a number of priorities that included: complexity, quality, risk, management and price certainty. These priorities were discussed at a workshop held with key stakeholders, including the school in July 2013. The conclusion reached given the specific nature, scale and ambition for the project was to adopt an ECI approach with a Target Cost. A report was presented to the Modernising Education Board in October 2013 recommending an ECI approach for this project; this recommendation was adopted.

Based on the decision to proceed on an ECI / Target Cost approach, a mini-tender was prepared, using the guidelines set out in the Framework and issued on May 30<sup>th</sup> 2014 to all 6 contractors in Lot 2 of the Framework. This mini-tender was structured based on a 70% Quality / 30% Price ratio. Within this ratio a number of Quality Questions were posed and a Cost question in reference to a defined Scope of Services. Individual Quality Questions were also weighted based on their relative importance. In addition, an explicit and clear Evaluation

Criteria document was issued to the Contractors on Lot 2 to accompany the mini-tender to ensure the evaluation process was clear and transparent.

The mini-tender submissions, returned on July 25<sup>th</sup> 2014, were scored by an evaluation panel according to the guidance in the Evaluation Criteria issued. In addition, all bidders were invited to interview to present their written responses and answer any questions or clarifications that arose out of their written responses.

